Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion

## Offeryn hunanasesu a chamau arferol ar gyfer cynnydd



## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth: 180/2015
Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015

# Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob ysgol, coleg a lleoliad cyn-ysgol. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen yma'n rhoi canllawiau ar sut y gall gosodiadau addysg ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gellir ei ddefnyddio gan sefydliadau heb unrhyw brofiad neu arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion neu'r rhai sydd eisoes wedi gwneud peth cynnydd. |
| **Camau i'w cymryd** | Mae hyn yn arfer da a argymhellir. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:<br>Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 5789<br>e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@wales.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu |
| **Dogfennau perthnasol** | *Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru*<br>http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/person-centred-reviews-toolkit/?lang=cy<br>*Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru*<br>http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/person-centred-practice-guide/?lang=cy |

Atgynhyrchwyd delweddau drwy ganiatâd Julie Barclay. Ni chafodd y dyluniadau eu creu'n benodol ar gyfer y dogfennau hyn.

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG25559 ISBN digidol 978 1 4734 4273 3

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhageiriau** | **2** |
| **Cyflwyniad** | **5** |
| **1. Deilliannau** | **7** |
| **2. Darpariaeth** | **8** |
| **3. Arweinyddiaeth** | **17** |
| **Crynodeb o gamau gweithredu** | **32** |
| **Templed o gynllun gweithredu** | **34** |
| **Adnoddau eraill** | **35** |
| **Crynodeb o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion** | **36** |

# Rhageiriau




**Huw Lewis AC – Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o adeiladu system addysg sy'n gweithio i bob dysgwr ar bob lefel. Yn fwy na hynny, mae llwyddiant ein diwygiadau ym maes anghenion dysgu ychwanegol yn golygu bod angen i bawb sy'n gysylltiedig i groesawu'r ethos newydd sy'n canolbwyntio ar unigolion, sy'n gonglfaen yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud.

Mae angen mwy na sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol. Rydym eisiau gweithwyr proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar ac yn ein hysgolion a cholegau i goleddu eu hanghenion mewn ffordd ystyrlon a chyfannol, nid dim ond o fewn terfynau'r hyn sydd ei angen yn gyfreithiol.

Dangosodd tystiolaeth o'r prosiectau peilot Anghenion Dysgu Ychwanegol, y prosiect Hawliau Pobl Ifanc i Apelio a Hawlio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn Sir Gaerfyrddin a phrosiectau Real Opportunities y gall defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar unigolion wneud gwahaniaeth cadarnhaol a pharhaus i ddysgwyr a'u teuluoedd, yn ogystal â hwyluso gweithio aml-asiantaeth mwy effeithiol.

Bydd cyhoeddi'r canllaw hwn a dwy ddogfen gysylltiedig yn rhoi adnoddau a momentwm pellach i helpu i ddatblygu'r agwedd hanfodol hon ar ein diwygiadau.





## Medwen Edwards – rhiant

Fel mam i blentyn gyda chyflyrau ac anghenion difrifol a chymhleth, roeddwn yn ymwybodol iawn o’r angen am fewnbwn rhieni i’r ddogfen yma, ac yn ddiolchgar am y cyfle i wneud hynny. Bu’n gyfle gwerth chweil, wrth greu’r ddogfen yma, i rannu gwybodaeth ac esbonio sefyllfaoedd o safbwynt teulu, ac yn bwysicaf oll o safbwynt y plentyn.

Credaf yn gryf y dylai anghenion a dyheadau’r plentyn bob amser fod yn ganolog i bob agwedd o drafodaethau a phenderfyniadau ym mhob sefyllfa.

Hyderaf y bydd y ddogfen yma yn offeryn gweithredol gwerthfawr iawn ac yn bennaf oll, y bydd yn cynorthwyo sefydliadau i gydweithredu gyda’r plentyn a’u teulu. Hefyd y bydd yn sicrhau’r gefnogaeth a help gorau posibl i ddynodi dyhead, cryfderau a gobeithion pob plentyn.






## Arwyn Thomas – Pennaeth Addysg

Yma yng Ngwynedd rydym wrthi yn y broses o ailstrwythuro ein darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol. Credwn y bydd *Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion* yn offeryn gwerthfawr tu hwnt er mwyn sicrhau y caiff arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ei ymwreiddio yn ein hysgolion wrth i ni ddatblygu ein gwasanaeth newydd.

Mae rhieni eisiau gwasanaethau sy'n cadw eu plant a'u pobl ifanc yng nghanol y broses gwneud penderfyniadau, ac sy'n edrych ar y plentyn cyfan ac nid dim ond un agwedd.

Gall sefydliadau sy'n defnyddio'r adnodd yma ddangos eu hymrwymiad eu hunain i arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion. Bydd *Datblygu fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion* yn ddull o feincnodi pa mor dda maent yn gwneud yng nghyswllt darparu cefnogaeth ac addysg wedi ei phersonoli ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn gyfle iddynt roi tystiolaeth o'u gallu i adlewyrchu ar eu heffeithlonrwydd ac ansawdd eu hunain.

Yma yng Nghyngor Gwynedd gwerthfawrogwn y profiad o gymryd rhan yn y gwaith yma a dymunwn yn dda i chi wrth ei ddefnyddio yn eich sefydliad.



# Cyflwyniad

Mae'r cyhoeddiad hwn yn un o set o dri a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a chefnogi datblygu arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn y blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau.

Mae'r holl gyhoeddiadau hyn ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu.

## Ar gyfer pwy mae'r offeryn yma a sut y cafodd ei ddatblygu

Mae'r cyhoeddiad hwn yn offeryn hunanasesu ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau i weld i ba raddau maent wedi dod yn sefydliadau sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Darparu cymorth effeithlon a chyfannol yw'r nod allweddol ac mae'n golygu teilwra cefnogaeth i'r unigolyn, a'u galluogi i gael cymaint o ddewis a rheolaeth ag sy'n bosibl dros eu cefnogaeth a'u bywyd, yn hytrach na chefnogi pawb yn yr un ffordd.

Datblygwyd yr offeryn yma gan rieni, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig, seicolegwyr addysgol, cynrychiolwyr colegau addysg bellach, gwasanaethau cymdeithasol, Llywodraeth Cymru ac Adran Addysg Gwynedd.

## Sut i ddefnyddio'r offeryn

Mae'r offeryn hunanasesu yn gofyn i chi edrych ar eich arferion, polisïau, sgiliau a gwybodaeth rheini yr ydych yn gweithio gyda nhw gyda nhw a phrofiadau'r plant a'r bobl ifanc a'u rhieni a'u teuluoedd.

Mae'n cymryd tua 40 munud i lenwi'r hunanasesiad.

Mae pob pwnc yn eich galluogi i roi sgôr ar raddfa 1 i 5 i'ch hunan.

Os ticiwch flwch 1 **nid ydych wedi dechrau defnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion** yn yr agwedd honno o'ch gwaith.

Ticiwch flwch 2 **os ydych yn dechrau edrych ar weithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion** yn yr agwedd honno o'ch gwaith.

Ticiwch flychau 3 neu 4 **os oes gennych gynllun i weithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion** yn y maes hwnnw neu'n gwneud hynny eisoes.

Ticiwch flwch 5 os ydych yn gweithredu arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion yn y maes hwnnw ac yn rhannu arfer da gyda sefydliadau eraill.

Unwaith y byddwch wedi rhoi sgôr i'ch hunan ar y meini prawf yma, gallwch drosglwyddo'r sgorau i'r dudalen grynhoi ar dudalen 32 sy'n rhoi trosolwg o sut hwyl yr ydych yn ei chael arni.

Gallwch ddefnyddio'r offeryn asesu ar ben eich hun, ar gyfer hunan-fyfyriad unigol i ddynodi anghenion hyfforddiant a datblygu gyda'ch rheolwr, i gytuno ar nodau gyda'ch tîm, i gytuno ar nodau tîm ac unigol gyda rheolwyr eraill, e.e. fel rhan o raglen datblygu sefydliad.

Pan sonnir am offerynnau penodol a dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion cânt eu dangos mewn print trwm.

## Beth nesaf?

Unwaith y byddwch wedi asesu eich arfer gallwch ddefnyddio'r wybodaeth yma i ddatblygu cynllun gweithredu. Dylai'r cynllun gweithredu ddisgrifio sut y byddwch yn datblygu, newid ac yn symud tuag at ddatganiad 5 (arfer ardderchog) ar gyfer pob pwnc. Mae templed o gynllun gweithredu wag ar dudalen 34.

Gallwch wirio eich cynnydd drwy wneud yr asesiad yn rheolaidd ac olrhain eich sgôr dros gyfnod. Bydd hyn yn rhoi trosolwg o ble'r ydych wedi gwella a lle mae angen i chi ddatblygu ymhellach. Hyd yn oed os yw'r cynnydd yn araf mae'n bwysig eich bod chi a'r holl dîm staff yn cofnodi a dathlu'r hyn yr ydych wedi'i gyflawni.

# 1. Deilliannau

## 1a. Deilliannau dysgu

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Mae deilliannau yn gyffredinol yn eithaf eang, gan ganolbwyntio ar set o dargedau cyffredinol y medrid eu cyflawni, yn hytrach nag anghenion dysgwyr unigol neu'r hyn y dymunant ei gyflawni. | |
| 2 | Rydym yn gwybod fod angen i ni gynnwys dysgwyr, rhieni ac asiantaethau cefnogi wrth osod deilliannau dysgu ar gyfer unigolion ond rydym yn ansicr sut i wneud hyn. Bwriadwn edrych ar sut mae lleoliadau eraill yn defnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion i wneud hyn yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Rydym wedi sefydlu cynllun i symud ymlaen, yn dechrau cynnwys rhai dysgwyr, rhieni ac asiantaethau wrth ddatblygu **deilliannau dysgu sy'n canolbwyntio ar unigolion**, sy'n benodol ac yn fesuradwy drwy'r broses **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion**. Mae rhai aelodau staff yn deall sut i wneud hyn. | |
| 4 | Mae gennym system dda ar gyfer rhannu gwybodaeth yn union cyn (wrth baratoi ar gyfer) ac ar ôl (mewn ymateb) **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion**. Mae'r holl staff sy'n cymryd rhan yn deall eu rôl mewn gwneud i hyn ddigwydd. Mae'r holl ddysgwyr, rhieni ac asiantaethau yn cymryd rhan weithgar wrth osod **canlyniadau dysgu sy'n canolbwyntio ar unigolion**. | |
| 5 | Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn sicrhau fod cydweithrediad llawn rhwng yr holl staff yn y gosodiad i gefnogi pob dysgwr i gyrraedd eu potensial llawn. Mae'r dysgwyr, rhieni, staff ac asiantaethau yn deall ac yn cyfrannu at ddatblygu'r canlyniadau hyn ac mae system ardderchog ar gyfer rhannu gwybodaeth yn rheolaidd. Mae'r holl rieni ac asiantaethau yn gweithio tuag at **ddeilliannau dysgu sy'n canolbwyntio ar unigolion**. Rydym yn rhannu ein dysgu gydag eraill. | |

# 2. Darpariaeth

## 2a. Defnyddio arfer sy’n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer dysgu wedi ei bersonoli

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Caiff gwersi eu gwahaniaethu yn ôl anghenion dysgwyr ond nid ydym yn rhoi ystyriaeth i ddewisiadau unigol yn nhermau arddulliau a dulliau dysgu. | |
| 2 | Rydym yn dechrau meddwl sut y gallwn bersonoli mwy ar ein dulliau gweithredu. Bwriadwn ganfod sut mae lleoliadau eraill yn defnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion i wneud hyn yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Mae gennym gynllun sut i ddefnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion i bersonoli dysgu ac rydym wedi dechrau casglu gwybodaeth am sut mae dysgwyr eisiau cael eu haddysgu a sut olwg sydd ar gefnogaeth orau iddynt drwy ddefnyddio **proffiliau un dudalen**. Rydym yn ceisio cynnwys hyn yn ein cynlluniau. | |
| 4 | Caiff gwybodaeth am ddewisiadau dysgwyr ei rannu rhwng staff. Mae staff yn casglu adborth rheolaidd gan ddysgwyr am **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** o'u safbwynt nhw. Mae gan bob dysgwr **broffil un dudalen** sy'n sylfaen i'n proses gynllunio ac yn ein helpu i gyflwyno dysgu wedi ei bersonoli. | |
| 5 | Mae staff yn defnyddio'r offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion sy'n eiddo i bob dysgwyr (e.e. eu **proffil un dudalen, siart cyfathrebu** wrth gynllunio gwersi. Rydym yn adolygu ac yn ystyried hyn yn rheolaidd ac yn rhannu **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** gyda phob dysgwr. Sicrhawn fod yr hyn y gwnaethom ei ddysgu yn sylfaen i'r broses adolygu a'r hyn a gynhwysir yn y cynllun canolbwyntio ar yr unigolyn, er enghraifft, drwy ddefnyddio **log dysgu**. Mae strategaethau yn bodoli i gynnwys dysgwyr yn y broses yma. | |

## 2b. Gweld dysgwyr fel unigolion a dathlu’r hyn a hoffwn ac a edmygwn amdanynt

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid ydym yn casglu gwybodaeth am gryfderau'r dysgwyr, rydym yn canolbwyntio ar eu hanghenion cefnogaeth. | |
| 2 | Rydym yn cydnabod pwysigrwydd disgrifio cryfderau'r dysgwr mewn ffordd gadarnhaol, ond mae ein prosesau yn rhwystro hyn. Rydym yn canfod sut mae lleoliadau eraill yn defnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion i wneud hyn yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Mae gennym ymrwymiad i gasglu a chofnodi ystod o wybodaeth am bob dysgwr, yn cynnwys yr hyn mae pobl yn ei **hoffi ac edmygu** amdanynt. Rydym yn dechrau cofnodi hyn ar gyfer rhai dysgwyr, er enghraifft yn eu **proffil un dudalen**. | |
| 4 | Rydym yn ceisio defnyddio ein gwerthfawrogiad o gryfderau dysgwyr yn ein cyswllt dydd i ddydd gyda dysgwyr ac wrth gynllunio cefnogaeth. Rydym yn cofnodi'r hyn a hoffwn ac a edmygwn am ein holl ddysgwyr sydd ag anghenion addysg arbennig, e.e. mewn **proffil un dudalen**. | |
| 5 | Rydym yn cydnabod, cofnodi a chyfathrebu'r hyn yr ydym yn ei **hoffi a'i edmygu** am y dysgwr, gan ddisgrifio doniau, sgiliau a nodweddion cadarnhaol. Mae gennym amrywiaeth o ffyrdd i gyfathrebu hyn iddynt a'r bobl sy'n bwysig iddynt (e.e. defnyddio **proffiliau un dudalen**). Defnyddiwn yr wybodaeth hon er mwyn i'r dysgwr ddatblygu hunanymwybyddiaeth gadarnhaol ac yn ein cynllunio i'w cefnogi i ddefnyddio'r nodweddion hyn i gyfrannu at fywyd y gymuned. Mae'r holl staff yn teimlo'n gysurus yn disgrifio cryfderau dysgwyr ac yn annog eraill i wneud yr un fath (e.e. yn ystod **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion**). | |

## 2c. Sut y gwyddom beth sy’n bwysig i ddysgwyr nawr

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rydym yn gwybod ac yn canolbwyntio ar anghenion addysg neu hyfforddiant y dysgwr. Nid ydym yn gwybod na'n cofnodi'r hyn sy'n **bwysig** i'r dysgwr. | |
| 2 | Rydym yn gwybod fod angen i ni gydnabod a chofnodi'r hyn sy'n **bwysig** i ddysgwyr. Rydym yn edrych ar sut y gallwn wneud hyn a'i gynnwys yn ein cynllunio a chefnogaeth drwy edrych sut mae eraill yn gwneud hyn yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Rydym wedi dechrau canfod a chofnodi'r hyn sy'n **bwysig** i'r dysgwr ac mae rhai aelodau staff yn defnyddio rhai offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion i'n helpu i wneud hyn (e.e. **diwrnod da – diwrnod gwael, cylchoedd perthynas** a dysgu am **drefn arferol** pobl). Mae'r wybodaeth yma'n dechrau newid sut y cefnogwn rai dysgwyr. | |
| 4 | Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr gofnod o'r hyn sy'n **bwysig iddynt** yn awr (e.e. **proffil un dudalen**). Mae holl aelodau'r staff yn defnyddio'r wybodaeth yma mewn sgyrsiau ac yn y ffordd y cefnogant ddysgwyr. Mae staff newydd neu staff cyflenwi'n defnyddio hyn i ddod i adnabod dysgwyr yn gyflym. | |
| 5 | Rydym yn gwybod beth sy'n **bwysig** i bob dysgwr. Caiff hyn ei gofnodi'n glir ac mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl a phenodol yn cynnwys **perthnasoedd, trefn arferol a diddordebau**. Mae gan bob dysgwr **broffil un dudalen**. Mae staff yn gweithio'n fwriadol i wneud yn siŵr fod yr hyn sy'n **bwysig** i'r dysgwr yn digwydd yn bwrpasol ym mhob agwedd o'u haddysg a'u hyfforddiant. Mae staff yn dynodi lle mae rhwystrau i gyflawni hyn ac yn gweithio gydag eraill i ganfod ffyrdd i'w gostwng. Rydym yn rhannu'r hyn rydym wedi ei ddysgu gyda lleoliadau eraill. | |

## 2ch. Sut y gwyddom beth yw dyheadau dysgwyr ar gyfer y dyfodol

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rydym yn rhoi cefnogaeth fydd yn helpu'r dysgwr i gyrraedd eu targedau eu hunain am y flwyddyn i ddod. | |
| 2 | Rydym yn sylweddoli er mwyn cefnogi dysgwyr yn effeithlon y dylem ddeall eu **dyheadau** ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid ydym yn sicr sut i wneud hyn, neu os mai ein rôl ni yw hynny mewn gwirionedd. | |
| 3 | Rydym yn ceisio helpu rhai dysgwyr i feddwl am eu dyfodol. Rydym wedi cofnodi deilliannau sy’n canolbwyntio ar unigolion mesuradwy a phenodol i rai dysgwyr i gyflawni eu dyheadau ac rydym yn gweithio ar ein rôl wrth gyflawni hyn. | |
| 4 | Rydym yn helpu ein dysgwyr i feddwl am eu **dyheadau** ar gyfer y dyfodol, yr hyn y gallent ei hoffi neu geisio ei wneud. Mae ein cwricwlwm yn cefnogi staff i wneud hyn. Mae gennym gofnod o hyn ac mae deilliannau sy’n canolbwyntio ar unigolion clir, mesuradwy a phenodol yr ydym yn gweithio tuag atynt. | |
| 5 | Rydym yn gwybod beth mae pob dysgwr ei eisiau ar gyfer y dyfodol – eu breuddwydion, gobeithion a dyheadau. Rydym wedi casglu'r wybodaeth yma gan y dysgwr a'r rhai sy'n eu hadnabod orau (yn defnyddio meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion, cynllunio neu **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion**). Cofnodir hyn yng nghynllun canolbwyntio ar unigolyn y dysgwr. Mae canlyniadau penodol, mesuradwy a chyflawnadwy sy'n symud tuag at y dyheadau hyn a gweithiwn gyda'r dysgwr i gyflawni hyn. Rydym yn glir am ein rôl yn hyn ac adolygu cynnydd gyda'r dysgwr. Rydym yn rhannu'r hyn y gwnaethom ei ddysgu gyda lleoliadau eraill. | |

## 2d. Sut y deallwn sut mae dysgwyr eisiau cael cefnogaeth

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rydym wedi sefydlu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer sut y cefnogwn ddysgwyr. Rydym wedi darparu'r un gefnogaeth i bawb, nid yw'n cael ei phersonoli. | |
| 2 | Mae rhai aelodau staff yn gwybod bod angen i ni ganfod sut yr hoffent gael eu cefnogi er mwyn cefnogi dysgwyr yn effeithlon. Rydym yn ansicr sut i wneud hyn a chofnodi'r wybodaeth. Ar hyn o bryd nid yw ein dull gweithredu yn ddigon hyblyg i alluogi hyn i ddigwydd. Bwriadwn weld sut mae lleoliadau eraill yn defnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion i wneud hyn yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Rydym yn cydnabod pwysigrwydd canfod gan ddysgwyr sut olwg sydd ar gefnogaeth dda iddynt yn unigol ac rydym wedi dechrau ymchwilio hyn gyda nhw, e.e. drwy ddefnyddio **diwrnod da – diwrnod gwael a chylchoedd perthynas**. Rydym wedi datblygu cynllun i rai aelodau staff i gasglu'r wybodaeth yma gan bawb, gan ddefnyddio peth o'r offerynnau ac arferion meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion, e.e. **proffiliau un dudalen**. | |
| 4 | Mae'r rhan fwyaf o aelodau staff yn glir sut olwg sydd ar gefnogaeth dda i bob dysgwr. Rydym wedi dechrau cofnodi hyn (e.e. mewn **proffiliau un dudalen**). Mae staff yn deall yr hyn mae hyn yn ei olygu i'w harfer ar sail dydd i ddydd ac yn defnyddio'r wybodaeth yma fel sylfaen i sut i gefnogi dysgwyr. | |
| 5 | Rydym i gyd yn gwybod ac yn gweithredu sut y mae'r dysgwr eisiau cael ei gefnogi. Caiff hyn ei gofnodi'n glir ac mae ar gael yn rhwydd i'r holl staff (e.e. mewn **proffiliau un dudalen**) gyda manylion penodol i'r dysgwr a defnyddir yr wybodaeth wrth ddarparu cefnogaeth unigol ar gyfer dysgu. Mae'r wybodaeth yn cynnwys y gefnogaeth mae dysgwyr ei heisiau yn eu haddysg, perthnasoedd a diddordebau. Mae'n disgrifio unrhyw offer a ddefnyddiant neu'r mynediad maent ei angen i'w helpu i ddysgu a, phan yn berthnasol, gall gynnwys gwybodaeth ar sut i'w helpu i aros yn iach a diogel. Rydym yn rhannu'r hyn y gwnaethom ei ddysgu gyda'r dysgwr gyda lleoliadau eraill. | |

## 2dd. Sut y gweithredwn ar yr hyn sy’n gweithio a ddim yn gweithio i ddysgwyr

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid ydym yn gwybod **beth sy'n gweithio neu ddim yn gweithio** i'r dysgwr. | |
| 2 | Rydym eisiau gwybod beth mae dysgwyr yn feddwl sy'n **gweithio a ddim yn gweithio** yn eu bywydau. Nid ydym yn siŵr sut i wneud hyn ac os gallwn ymateb a gwneud y newidiadau maent eu heisiau. | |
| 3 | Rydym wedi dechrau gofyn i rai dysgwyr fel mater o drefn beth sy'n **gweithio a ddim yn gweithio**, o'u safbwynt nhw, am eu bywyd a'r gefnogaeth a gânt (e.e. fel rhan o **adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolyn**). | |
| 4 | Rydym yn hyderus wrth gefnogi dysgwyr i ddweud wrthym **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio**. Mae hyn yn digwydd i bawb o leiaf unwaith y flwyddyn, mewn **adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolyn**. Caiff cynllun gweithredu ei ddatblygu o hyn a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. | |
| 5 | Mae gennym system ar gyfer gofyn a chofnodi **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** i bob dysgwyr o'u safbwynt nhw. Defnyddir yr wybodaeth yma i ddatblygu ymyriad a mewnbwn yn y dyfodol a hefyd i fod yn sylfaen i newid yn y lleoliad. Rydym wedi creu system fydd yn casglu'r wybodaeth yma gan ddysgwyr fel y gallwn gynllunio'n strategol yr hyn ddylai ddigwydd yn y lleoliad. Rhannwn ein dysgu gyda lleoliadau eraill. | |

## 2e. Sut y galluogwn ddysgwyr i gyfathrebu

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rydym yn cefnogi dysgwyr yn dilyn ein polisïau a gweithdrefnau; nid ydym yn cofnodi'n benodol sut mae pobl yn cyfathrebu. | |
| 2 | Rydym yn gwybod bod angen i ni ddeall mwy am sut mae dysgwyr yn cyfathrebu a'r hyn maent yn ceisio ei ddweud wrthym gyda'u geiriau neu eu hymddygiad. | |
| 3 | Rydym wedi dechrau cyflwyno **siartiau cyfathrebu** fel cam cyntaf lle'n briodol. Mae rhai aelodau staff yn awr yn dechrau deall bod cyfathrebu yn golygu pob ymddygiad (yn cynnwys 'ymddygiad heriol') ac yn datblygu eu sgiliau wrth arsylwi, cofnodi a chyfathrebu gyda phobl. | |
| 4 | Rydym yn defnyddio **siartiau cyfathrebu** lle'n briodol i gofnodi cyfathrebu dysgwr. Mae staff yn deall eu rôl eu hunain mewn gwrando a chyfathrebu effeithlon ac yn gwybod sut i ymateb i bobl. | |
| 5 | Rydym i gyd yn gwybod ac yn ymateb i sut mae'r dysgwr yn cyfathrebu drwy eu geiriau neu eu hymddygiad. Caiff hyn ei gofnodi'n glir (e.e. ar **siartiau cyfathrebu**) ac mae staff yn gwybod beth mae dysgwr yn ei olygu pan maent yn ymddwyn mewn rhai ffyrdd a sut i ymateb. Mae'r rhain yn gyfoes a chânt eu defnyddio mewn modd cyson gan yr holl staff. Rydym yn rhannu'r hyn y gwnaethom ei ddysgu gyda lleoliadau eraill. | |

## 2f. Sut y dynodwn y ffordd y mae dysgwyr yn gwneud penderfyniadau

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid ydym yn cynnwys dysgwyr mewn penderfyniadau am eu bywydau. | |
| 2 | Rydym yn sylweddoli y dylai dysgwyr gymryd rhan a chael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau am eu bywyd. Rydym hefyd yn cydnabod y gallai hyn helpu dysgwyr i deimlo'n fwy mewn rheolaeth. Ni wyddom sut i wneud hyn eto ond bwriadwn ganfod sut mae lleoliadau eraill yn defnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion i wneud hyn yn lleol ac yn genedlaethol, e.e. yn defnyddio **cytundebau sy'n canolbwyntio ar unigolion**. | |
| 3 | Rydym wedi dechrau cynnwys rhai dysgwyr mewn gwneud penderfyniadau a rhoi cynnig ar ddulliau gweithredu gwahanol i helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau, e.e. drwy ddefnyddio cytundebau gwneud penderfyniadau. Mae gennym gynllun i ymgysylltu â theuluoedd i gynorthwyo yn y broses benderfynu. | |
| 4 | Mae gennym lawer o enghreifftiau o ddysgwyr yn gwneud penderfyniadau am yr hyn sy'n bwysig iddynt a chaiff y rhain eu cofnodi, e.e. mewn **cytundebau gwneud penderfyniad**. Rydym yn sicrhau fod hyn yn cynnwys dysgwyr gyda materion galluedd neu gyfathrebu. | |
| 5 | Rydym yn sicrhau fod ein holl ddysgwyr yn cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau amdanynt eu hunain ac rydym wedi cefnogi rhai dysgwyr i wneud penderfyniadau nad oeddem yn cytuno gyda nhw. Rydym yn rhannu ein dysgu gyda lleoliadau eraill. | |

## 2ff. Sut y cefnogwn ddysgwyr yn eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol i fod yn bobl annibynnol

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid ein cyfrifoldeb ni yw datblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr tu allan i'r sefydliad. | |
| 2 | Rydym yn credu y byddai'n fanteisiol i ddysgwyr fod yn weithgar yn eu cymuned, ond ni allwn weld sut i gefnogi hyn o fewn ein hadnoddau presennol. Rydym yn edrych sut mae lleoliadau eraill yn defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion i drin hyn, yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Rydym yn ymroddedig i ymchwilio ffyrdd i ddysgwyr fod yn rhan o'u cymunedau ac rydym wedi datblygu cynllun ar gyfer sut i wneud hyn gyda rhai o'n dysgwyr. | |
| 4 | Rydym yn defnyddio rhai o'r offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion i gefnogi rhai dysgwyr i fynd allan a bod yn rhan o'u cymuned. Gwnawn hyn, er enghraifft, drwy ganfod y bobl a'r lleoedd sy'n **bwysig** i'r dysgwr, a'r ffordd orau i'w cefnogi i fod yn rhan o'u cymuned. Caiff yr wybodaeth yma ei chofnodi er enghraifft yn y **proffil un dudalen** neu **gylch perthynas**. | |
| 5 | Rydym yn gwybod pa leoedd sy'n **bwysig** i'r dysgwr a lleoedd eraill yr hoffent fod yn rhan ohonynt, a gwyddom sut i gefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol o fewn eu cymuned. Cofnodwn y rhain fel **deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion**, ac mae gennym ffyrdd penodol a mesuradwy i alluogi dysgwyr i fod yn rhan lawn o'u cymuned a chyfrannu. Caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd drwy ddefnyddio **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** neu yn yr **adolygiad canolbwyntio ar unigolyn**. Mae tystiolaeth fod dysgwyr yn dod yn rhan o'u cymuned. Cofnodir hyn yn eu cynllun canolbwyntio ar unigolyn a chaiff ei rannu gyda'n hasiantaethau partner lle'n briodol. | |

# 3. Arweinyddiaeth

## Gweithio gyda staff

### 3a. Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yr uwch dîm arweinyddiaeth

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid oes gan neb yn yr uwch dîm arweinyddiaeth unrhyw ddealltwriaeth na phrofiad o ddefnyddio offerynnau neu arferion meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion. | |
| 2 | Rydym yn gwybod fod angen i ni fel uwch dîm arweinyddiaeth ddatblygu ein sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion ond nid ydym wedi datblygu unrhyw gynlluniau i wneud hyn ac nid ydym yn siŵr ble i ddechrau. Rydym yn edrych am gyfleoedd i ganfod sut mae eraill yn defnyddio'r offerynnau hyn o fewn eu lleoliadau yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Fel uwch dîm arweinyddiaeth mae gennym gynllun i ddatblygu ein dealltwriaeth o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi staff yn ogystal â dysgwyr. Rydym wedi dechrau edrych ar beth o'r wybodaeth sydd ar gael ar feddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion a gwelsom beth arfer da gan sefydliadau eraill yn lleol, e.e. sut y cânt eu defnyddio mewn cyfarfodydd staff. Rydym yn dechrau rhannu ein dysgu gydag aelodau eraill allweddol o'r staff. | |
| 4 | Fel uwch dîm arweinyddiaeth rydym yn defnyddio dulliau meddwl ac arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion i redeg y gosodiad o ddydd i ddydd. Mae holl aelodau'r tîm yn gwybod am yr offerynnau ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus ac yn defnyddio ein **proffiliau un dudalen** i gefnogi ein gwaith gyda'n gilydd. Mae rhai o'r tîm wedi dechrau defnyddio offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion i fod yn sylfaen i oruchwyliaeth, gwerthusiad a chyfarfodydd staff er enghraifft. Anelwn ddatblygu ein rôl fel arweinwyr mewn arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion drwy fodelu arfer gorau o fewn y lleoliad. | |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn galluogi'r holl staff i gael cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o arferion sy’n canolbwyntio ar unigolion drwy hyfforddiant a modelu arfer da. Defnyddiwn arferion sy’n canolbwyntio ar unigolion fel sylfaen i'n holl waith o recriwtio i drefnu amserlen staff cefnogaeth. Rydym i gyd yn hyderus ac yn gymwys yn defnyddio dulliau ac arferion meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion yn holl feysydd ein gwaith. | |

### 3b. Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth staff mewn defnyddio arferion sy’n canolbwyntio ar unigolion

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid oes gan aelodau staff unrhyw ddealltwriaeth na phrofiad o ddefnyddio dulliau neu arferion meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion. | |
| 2 | Rydym wedi cyflwyno'r syniad o weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion i ychydig aelodau creiddiol o'r staff, rhai sy'n gyfrifol am anghenion addysgol arbennig. Gwyddom fod angen i staff ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion. Bwriadwn ganfod sut mae lleoliadau eraill yn lleol ac yn genedlaethol wedi gwneud hyn. | |
| 3 | Mae'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig a'r staff cefnogaeth yn gwybod y disgwylir iddynt ddefnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion i gefnogi plant gydag anghenion addysgol arbennig. Mae gennym gynllun i ddatblygu dealltwriaeth o feddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion ym mhob rhan o'r gosodiad ac mae'r uwch dîm rheoli yn cefnogi hynny. | |
| 4 | Mae'r rhan fwyaf o aelodau staff yn gwybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn nhermau defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwyddant er enghraifft sut i gyfrannu at ddatblygu **proffiliau un dudalen** ac **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion**, ac yn gwybod sut i rannu eu dysgu gydag aelodau eraill y staff. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cefnogi hyn drwy fodelu arfer gorau. | |
| 5 | Mae gan holl aelodau staff eu **proffil un dudalen** eu hunain a defnyddir hyn i fod yn sylfaen i'n harfer. Mae staff yn hyderus yn cyfrannu gwybodaeth i gynlluniau sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer dysgwyr, ac yn defnyddio'r wybodaeth yma i fod yn sylfaen wrth gefnogi dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth. Mae staff yn rhannu gwybodaeth gydag eraill yn rheolaidd, ac yn gwybod fod disgwyl iddynt fodelu arfer gorau mewn arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion gydag eraill y tu mewn a'r tu allan i'r gosodiad. | |

## 3c. Dysgu proffesiynol

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Mae'r holl hyfforddiant yn seiliedig ar ofynion statudol. Nid oes gan staff unrhyw gyfrifoldeb na chyfle i ddynodi eu hanghenion hyfforddiant eu hunain neu wneud penderfyniadau am yr hyn yr hoffent ei ddatblygu neu ei ddysgu neu sut yr hoffent wneud hynny. | |
| 2 | Rydym yn cydnabod fod angen i ni ganfod ffordd am gyfleoedd hyfforddiant a datblygu i gymell y staff i ddefnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion. Rydym wedi dechrau meddwl sut y gallem siarad gyda staff am ddod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion, eu rôl yn hyn a pha sgiliau newydd y gallem fod angen eu datblygu i ddiwallu gofynion newydd. | |
| 3 | Rydym wedi dechrau cynllunio i ddod yn fwy o sefydliad sy'n canolbwyntio ar unigolion ac eisiau datblygu rhaglen hyfforddiant sy'n helpu staff a'u rheolwyr i ddeall yr hyn y gallant ei wneud i wneud yn siŵr fod gan dysgwyr ddysgu mwy personoledig. Mae hyn wedi cynnwys offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion. | |
| 4 | Mae meddwl ac arferion sy’n canolbwyntio ar unigolion yn ganolog i'n hyfforddiant staff. Gofynnir i'r holl staff ystyried yr hyn y maent wedi rhoi cynnig arno, yr hyn y gwnaethant ei ddysgu, yr hyn maent yn falch ohono a ph'un ai oes ganddynt unrhyw bryderon (**offeryn 4 plws 1**). Rydym wedyn yn cytuno pa gamau gweithredu sydd angen eu cymryd o'r holl wybodaeth a gasglwyd. | |
| 5 | Fel rhan o broses rheoli perfformiad yr ysgol mae gan yr holl staff gynllun datblygu proffesiynol gyda nodau clir sy'n adeiladu ar gryfderau a chanolbwyntio ar weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae'r cynllun wedi'i seilio ar sut maent yn hybu eu defnydd o arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion gyda dysgwyr ac eraill, yn ogystal â safonau proffesiynol perthnasol a blaenoriaethau a thargedau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r hyfforddiant a roddwyd yn galluogi staff i fod yn gyfoes gydag arfer gorau mewn personoli dysgu. Mae aelodau staff yn hyderus wrth ddynodi eu hanghenion hyfforddiant eu hunain ac yn gallu rhannu hyn gyda rheolwyr. | |

## 3ch. Gwerthuso cynlluniau datblygu proffesiynol a rheoli perfformiad staff

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Mae staff addysgu yn cael gwerthusiad sy'n ffurfio rhan o'r cylch blynyddol a osodir ym mholisi rheoli perfformiad yr ysgol. | |
| 2 | Rydym yn cydnabod y dylai'r **holl** staff gael cyfle i gyfrannu at gynlluniau datblygu proffesiynol fel rhan o'u gwerthusiad ac at ffurfio a chyflenwi'r cynllun datblygu ysgol. Nid ydym yn siŵr sut i wneud hyn ond hoffem ddefnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion i wneud hynny. Bwriadwn edrych sut mae lleoliadau eraill yn wneud yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Mae gennym bolisi rheoli perfformiad i sicrhau fod yr **holl** staff yn cymryd rhan mewn gwerthusiad o leiaf yn flynyddol. Rydym wedi cydnabod y dylai dysgwyr a'u teuluoedd gael cyfle i fwydo'n ôl ar y gefnogaeth a dderbyniant gan eu gosodiad. Lle'n bosibl, gofynnwn am farn dysgwyr a'u teuluoedd drwy ddefnyddio offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion megis **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio**. | |
| 4 | Gofynnir i'r holl staff fyfyrio ar yr hyn y gwnaethant roi cynnig arno, yr hyn y maent wedi'i ddysgu, yr hyn maent yn falch ohono ac os oes ganddynt unrhyw bryderon (**offeryn 4 plws 1**). Fel sefydliad myfyriwn ar brofiadau dysgwyr a rhieni i fod yn sylfaen i gynlluniau datblygu proffesiynol. | |
| 5 | Wrth ffurfio cynlluniau datblygu a darpariaeth datblygu proffesiynol cysylltiedig ystyriwn ystod eang o wybodaeth yn cynnwys barn dysgwyr a rhieni. Mae'r holl staff yn cael adborth adeiladol yn rheolaidd gan reolwyr llinell am eu gwaith a chaiff cynlluniau datblygu proffesiynol a pherfformiad staff eu hadolygu a'u gwerthuso o leiaf yn flynyddol. Mae gwerthuso yn canolbwyntio ar **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** ac yn sefydlu nodau clir sy'n adeiladu ar gryfderau er mwyn datblygu sgiliau ymhellach. Mae meysydd y dynodir nad ydynt yn gweithio yn sylfaen i flaenoriaethau datblygu ar gyfer y staff yn y dyfodol. | |

## 3d. Sut y cynhwysir staff mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Yr uwch dîm arweinyddiaeth sy'n gwneud yr holl benderfyniadau; ni chaiff staff eu cynnwys fel arfer mewn penderfyniadau am gynlluniau'r dyfodol. | |
| 2 | Rydym yn cydnabod yr angen i ganfod ffordd i wrando ar y tîm staff, gwerthfawrogi eu barn a'u cynnwys yn natblygiad y gosodiad. Rydym yn ceisio gwella sut y gwnawn hyn a meddwl sut y byddem yn defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion i wneud hyn. Bwriadwn weld sut mae eraill yn gwneud hyn yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Mae gan staff beth ymgyfraniad wrth osod agendâu cyfarfodydd tîm. Y tîm uwch arweinyddiaeth sy'n dal i wneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau. Mae staff yn cyfrannu at ddatblygiad y gosodiad drwy ofyn iddynt yn rheolaidd **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** o'u safbwynt nhw. | |
| 4 | Rydym yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod materion a godir gan staff a defnyddiwn rai o'r offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion i wrando ar ei gilydd. Mae staff yn cyfrannu at agendâu cyfarfodydd tîm ac yn gwneud awgrymiadau am drafodaethau goruchwylio. Mae **proffil un dudalen** gan bob aelod o'r staff, a chaiff y rhain eu defnyddio mewn goruchwyliaeth a'u rhannu. Mae rhai staff yn gwneud awgrymiadau am syniadau newydd neu newid. | |
| 5 | Mae holl aelodau'r staff yn teimlo'n hyderus wrth awgrymu syniadau newydd neu newidiadau. Rydym yn defnyddio dulliau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion o fewn timau yn rheolaidd i wrando ar farn a phrofiadau ein gilydd (e.e. **offeryn 4 plws 1** a **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio**). | |

## 3dd. Staff yn gwybod beth sy’n bwysig i’w gilydd a’r ffordd orau i gefnogi ei gilydd

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid yw aelodau staff yn adnabod ei gilydd yn dda iawn. | |
| 2 | Rydym yn gwybod y gall arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion alluogi staff i wybod mwy am ei gilydd fel unigolion a sut y gallant gefnogi ei gilydd yn y gwaith (e.e. yn dechrau gyda **phroffiliau un dudalen** ar gyfer pawb). | |
| 3 | Rydym yn dysgu beth sy'n **bwysig** i'w gilydd a'r **ffordd orau i gefnogi** ein gilydd. Rydym i gyd yn gweithio ar roi'r wybodaeth yma ar waith drwy ddefnyddio **proffiliau un dudalen**. | |
| 4 | Fel timau rydym yn gwybod beth sy'n bwysig i'n gilydd a'r ffyrdd gorau i gefnogi ein gilydd, a chaiff hyn ei ddogfennu. Rydym yn gwybod sut y gwnawn benderfyniadau gyda'n gilydd a'r ffyrdd gorau i gyfathrebu gyda'n gilydd, e.e. drwy ddefnyddio **cytundebau gwneud penderfyniadau a siartiau cyfathrebu**. Rydym yn ystyried yn rheolaidd **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** i ni fel tîm, a'r hyn y gallwn wneud am hyn. | |
| 5 | Fel tîm staff rydym yn defnyddio'r wybodaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion a gesglir i gael gwybodaeth ar gyfer ein cynllun tîm. Rydym yn defnyddio'r cynllun i fod yn sail i'n datblygiad, i gefnogi ein gilydd ac i ddatblygu ein diwylliant o werthfawrogi doniau a chryfderau ein gilydd ac yn eu defnyddio yn ein gwaith lle bynnag y medrwn. | |

## Gweithio gydag eraill

### 3e. Sut y cynhwysir dysgwyr wrth wneud penderfyniadau am y sefydliad

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid yw dysgwyr yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am y lleoliad. | |
| 2 | Rydym yn sylweddoli y dylai dysgwyr gael rhan a chael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau am y gosodiad a'r ffordd mae'n eu cefnogi. Rydym hefyd yn sylweddoli y gallai hyn helpu dysgwyr i deimlo'n fwy mewn rheolaeth. Ni wyddom sut y gallai arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion ein cefnogi i wneud hyn eto, ond bwriadwn weld sut mae lleoliadau eraill yn gwneud hyn yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Rydym wedi dechrau ceisio gwahanol ddulliau i gynnwys rhai dysgwyr mewn penderfyniadau am y gosodiad. Rydym yn rhoi cyfleoedd iddynt rannu eu sylwadau gyda ni drwy ddefnyddio dulliau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion megis **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** a'r **offeryn 4 plws 1**. | |
| 4 | Rydym yn defnyddio dulliau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion (e.e. **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** ac **offeryn 4 plws 1**) i gasglu barn dysgwyr ar y sefydliad, sut y caiff ei redeg, y gefnogaeth a gânt ac unrhyw newidiadau sydd ar y gweill. | |
| 5 | Mae pob dysgwr yn cymryd rhan lawn wrth wneud penderfyniadau am eu sefydliad ac rydym yn defnyddio dulliau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion yn rheolaidd (e.e **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio, proffiliau gwneud penderfyniadau, trefniadau gwneud penderfyniadau**) i sicrhau ein bod yn casglu barn pawb. Rydym yn defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddweud wrthym i adolygu a gwella sut y gweithiwn fel sefydliad. | |

## 3f. Sut y cynhwysir llywodraethwyr mewn arfer sy’n canolbwyntio ar unigolion

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid ydym wedi hysbysu ein llywodraethwyr y bydd datblygiadau yn ein sefydliad am feddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion. | |
| 2 | Mae gan rai o'n corff llywodraethu ymwybyddiaeth o feddwl ac arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion. | |
| 3 | Rydym yn rhagweithiol yn y ffordd y gweithiwn gyda llywodraethwyr i'w cynnwys wrth ddatblygu arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion o fewn y sefydliad, yn cynnwys rhoi cyfleoedd iddynt fynychu hyfforddiant. | |
| 4 | Mae gan bob llywodraethwr **broffil un dudalen**. Rydym yn eu hannog i gyfrannu a rhannu eu sylwadau am **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio** am bersonoli dysgu yn ein sefydliad. | |
| 5 | Mae llywodraethwyr yn cymryd rhan lawn wrth ddatblygu a gweithredu meddwl ac arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion o fewn y gosodiad ac yn rhannu ein gweledigaeth. Caiff hyn ei adlewyrchu yng nghynllun datblygu'r ysgol. | |

## 3ff. Gweithio gydag asiantaethau eraill sy’n cefnogi plant a phobl ifanc

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rydym yn ymgysylltu gydag asiantaethau allanol pan fo angen i gefnogi dysgwyr gyda gwahanol agweddau o'u bywydau. | |
| 2 | Rydym yn gwneud yn siŵr y gwyddom am unrhyw asiantaethau eraill sy'n ymwneud â bywyd dysgwr ac yn ceisio cyfathrebu gyda nhw os oes unrhyw faterion lle teimlwn fod angen dull gweithredu cydlynol. Cefnogwn y dysgwr i drin unrhyw broblemau neu ymholiadau'n uniongyrchol gyda'r asiantaethau hynny. | |
| 3 | Rydym yn mynd ati i sicrhau fod yr wybodaeth ddiweddaraf gennym am asiantaethau eraill a dealltwriaeth lawn o'r hyn a gynigiant a sut y gallant gefnogi ein dysgwyr. Rydym yn dechrau adeiladu ein perthynas gyda nhw, yn rhannu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion ac yn atgyfeirio dysgwyr a'u teuluoedd at asiantaethau perthnasol lle bo angen. | |
| 4 | Mae gennym berthynas dda gydag asiantaethau eraill. Rydym yn mynd ati i'w hannog i gael hyfforddiant mewn meddwl ac arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion a defnyddio hynny ac yn rhannu ein dysgu ein hunain gyda nhw pan allwn. Pan fo hynny’n addas, mae aelodau o asiantaethau allanol weithiau'n mynychu ac yn cyfrannu gwybodaeth at ein **hadolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion**. | |
| 5 | Mae gennym berthynas ardderchog gydag asiantaethau eraill. Maent bob amser yn cyfrannu ac yn mynychu ein **hadolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion** pan yn briodol. Rydym yn rhannu ein dysgu gydag asiantaethau eraill ac yn mynd ati i geisio dysgu gan eraill. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i drin lles a **dyheadau** ein plant ac yn cydweithio i gyflwyno rhaglenni cydlynol i gyflawni hyn. Caiff gwybodaeth a gesglir o arferion sy’n canolbwyntio ar unigolion ei ddefnyddio i fod yn sylfaen i gynllunio strategol gydag asiantaethau eraill. | |

## 3g. Ein rôl mewn rhannu arfer da (ysgol, traws-sector ac awdurdod)

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Nid oes gennym unrhyw gysylltiadau am arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion gyda sefydliadau eraill. | |
| 2 | Rydym yn gwybod am arfer da sy'n digwydd ar draws yr awdurdod yng nghyswllt defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion, yn cynnwys o fewn ein sefydliad. Nid ydym yn siŵr sut i gydlynu ein hymdrechion i sicrhau cysondeb ond bwriadwn edrych ar yr hyn mae eraill yn ei wneud yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Mae gennym gynllun i rannu ein gwybodaeth ac arfer da gyda sefydliadau eraill ac i gynnwys yr hyn y gallwn ei ddysgu gan eraill yn ein harfer ein hunain. | |
| 4 | Rydym wedi datblygu system effeithiol o gydweithio rhwng sefydliadau ac ar draws sectorau er mwyn datblygu arfer cyson o arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ar draws yr awdurdod. | |
| 5 | Mae gan ein lleoliad arfer hynod sy'n canolbwyntio ar unigolion i'w ledaenu. Rydym yn flaengar yn ein harfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion yn weithredol ar bob lefel (e.e. dysgwyr unigol, lefel polisi, ac ati). Mae ein lleoliad yn cymryd rhan bwrpasol a gwerthfawr mewn trefniadau cydweithio ffurfiol ac mae'r effaith gadarnhaol a gaiff y cydweithio yma ar arfer yn amlwg ym mhob sefydliad. | |

## 3ng. Sut y darparwn wybodaeth dda a chefnogaeth i deuluoedd

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda theuluoedd pan welwn nhw mewn digwyddiadau penodol megis nosweithiau rhieni, neu ddyddiau agored, ac anfonwn lythyrau gwybodaeth gyffredinol at bawb. | |
| 2 | Gall teuluoedd wneud apwyntiadau i weld aelodau staff os ydynt angen mwy o wybodaeth, ond dim ond unwaith y mae'r dysgwyr wedi mynd adref. Os nad yw'r person maent eisiau siarad â nhw ar gael, gallant siarad gyda rhywun arall a gwnawn yn siŵr y caiff negeseuon eu trosglwyddo. | |
| 3 | Gall aelodau teulu siarad gyda ni pan fynnant o fewn rheswm. Mae staff yn gyfeillgar a chroesawgar a byddant yn gwneud eu gorau i fod ar gael i deuluoedd. Mae staff yn rhoi gwybodaeth drwy ein gwefan a'n cylchlythyrau. | |
| 4 | Rydym yn rhagweithiol wrth groesawu teuluoedd. Mae gennym wybodaeth dda am y lleoliad ac addysg y dysgwr i'w rhannu gyda theuluoedd. Rydym yn gwybod lle mae gwybodaeth arall ar gael yn lleol ac yn cyfeirio teuluoedd yn unol â hynny. | |
| 5 | Mae gan aelodau teulu berthynas dda gydag aelodau allweddol o staff ac maent yn teimlo'n hyderus wrth gysylltu â nhw am gyngor a gwybodaeth. Mae aelodau teulu yn gwybod beth sy'n digwydd yn y gosodiad yn gyffredinol, ac yn addysg eu plentyn. Rydym yn cefnogi teuluoedd i ganfod cyngor a gwybodaeth gan asiantaethau eraill lle'n briodol. Rydym yn rhannu'r hyn y gwnaethom ei ddysgu gyda phobl eraill. | |

## 3h. Sut y caiff dyheadau teuluoedd eu hannog a'u cefnogi

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Mae ein swydd yn golygu canolbwyntio ar y fan a'r lle ac ar nodau tymor byr. Nid oes gennym amser i feddwl am dyheadau ar gyfer y dyfodol. | |
| 2 | Rydym yn gwybod fod gan deuluoedd ddyheadau ar gyfer eu plant, ond rydym yn bryderus am godi disgwyliadau a gadael teuluoedd yn teimlo'n siomedig pan nad yw pethau'n digwydd. Rydym eisiau eu helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol mewn ffordd gadarnhaol, rydym yn gwybod y gall arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion gefnogi hyn ond rydym yn ansicr sut i symud ymlaen. Rydym yn cynllunio gweld sut mae lleoliadau eraill yn gwneud hyn yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Rydym yn cynllunio helpu teuluoedd i feddwl am ddyfodol eu plentyn a pha gefnogaeth y gallant fod ei angen gyda hyn. Rydym yn cynllunio i wneud hyn wrth baratoi ar gyfer adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion. | |
| 4 | Rydym yn cefnogi pob teulu i feddwl am ddyfodol eu plentyn. Rydym yn cynnwys teuluoedd ym mhob trafodaeth, rhoi gwybodaeth glir iddynt am yr opsiynau sydd ar gael a'u helpu i deimlo'n gadarnhaol am y dyfodol. Rydym yn cynllunio am hyn yn yr **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion**, a gwyddom beth fydd ein rôl wrth gefnogi teuluoedd gyda hyn. Mae gennym gofnod clir o **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion** rydym yn gweithio tuag at hynny. | |
| 5 | Rydym yn gwybod beth mae teuluoedd ei eisiau ar gyfer eu plentyn yn y dyfodol. Rydym wedi casglu'r wybodaeth yma yn ystod **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion**. Rydym yn helpu teuluoedd i feddwl am yr hyn sy'n gadarnhaol ac yn bosibl, yn eu hannog i gael dyheadau uwch ac yn edrych ar y **deilliannau sy'n canolbwyntio ar unigolion** penodol a mesuradwy ac y medrir eu cyflawni fydd yn symud eu plentyn tuag at y dyheadau hyn. Lle mae gwrthdaro rhwng dyheadau dysgwyr a'r hyn mae'r teulu ei eisiau iddynt, rydym yn cydweithio i ddatrys hyn. Rydym yn rhannu gyda phobl eraill yr hyn y gwnaethom ei ddysgu. | |

## 3i. Sut y cefnogwn deuluoedd i gyfrannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rydym yn gwahodd teuluoedd i gyfarfodydd ac adolygiadau, ond nid ydynt yn mynychu bob amser. | |
| 2 | Rydym yn sylweddoli pwysigrwydd cael aelodau teulu'n bresennol mewn cyfarfodydd ac **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion** a hefyd roi cyfleoedd iddynt gyfrannu. Rydym yn ansicr sut i wneud i hyn ddigwydd. Ar hyn o bryd nid yw ein dull gweithredu yn ddigon hyblyg i gynnwys anghenion teuluoedd ond rydym eisiau newid hyn. Rydym yn bwriadu edrych sut mae lleoliadau eraill yn defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion yn lleol ac yn genedlaethol. | |
| 3 | Mae gennym gynlluniau i annog aelodau teuluoedd i fynychu cyfarfodydd neu **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion** yng nghyswllt eu plentyn. Mae'n fwriad gennym roi gwybodaeth a chefnogaeth i'w teuluoedd i'w galluogi i gyfrannu. | |
| 4 | Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn mynychu ac yn cyfrannu at y cyfarfod neu **adolygiad canolbwyntio ar unigolyn**. Rydym yn rhoi gwybodaeth iddynt i'w galluogi i baratoi ar gyfer y cyfarfod ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am hyn. Rydym yn eu hannog i werthuso'r gefnogaeth a gaiff eu plentyn drwy edrych ar **beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio**. | |
| 5 | Mae pob teulu yn cyfrannu at **adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion** neu unrhyw gyfarfodydd neu drafodaethau eraill am eu plentyn. Mae teuluoedd yn teimlo'n hyderus yn cyfrannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i'r cynllun datblygu ysgol. Mae rhai o'n teuluoedd hefyd yn hyderus wrth rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd gyda theuluoedd eraill yn lleol ac yn genedlaethol. | |

# Crynodeb o gamau gweithredu

**1. Deilliannau**

a. Deilliannau dysgu

**2. Darpariaeth**

a. Defnyddio arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer dysgu wedi ei bersonoli
b. Gweld dysgwyr fel unigolion a dathlu'r hyn a hoffwn ac a edmygwn amdanynt
c. Sut y gwyddom beth sy'n bwysig i ddysgwyr nawr
ch. Sut y gwyddom beth yw dyheadau dysgwyr ar gyfer y dyfodol
d. Sut y deallwn sut mae dysgwyr eisiau cael cefnogaeth
dd. Sut y gweithredwn ar yr hyn sy'n gweithio a ddim yn gweithio i ddysgwyr
e. Sut y galluogwn ddysgwyr i gyfathrebu
f. Sut y dynodwn y ffordd y mae dysgwyr yn gwneud penderfyniadau
ff. Sut y cefnogwn ddysgwyr yn eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol i fod yn bobl annibynnol

**3. Arweinyddiaeth**

Gweithio gyda staff

a. Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yr uwch dîm arweinyddiaeth
b. Sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth staff mewn defnyddio arferion sy'n canolbwyntio ar unigolion
c. Dysgu proffesiynol
ch. Gwerthuso cynlluniau datblygu proffesiynol a rheoli perfformiad staff
d. Sut y cynhwysir staff mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau
dd. Staff yn gwybod beth sy'n bwysig i'w gilydd a'r ffordd orau i gefnogi ei gilydd

Gweithio gydag eraill

e. Sut y cynhwysir dysgwyr wrth wneud penderfyniadau am y sefydliad
f. Sut y cynhwysir llywodraethwyr mewn arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion
ff. Gweithio gydag asiantaethau eraill sy'n cefnogi plant a phobl ifanc
g. Ein rôl mewn rhannu arfer da (ysgol, traws-sector ac awdurdod)
ng. Sut y darparwn wybodaeth dda a chefnogaeth i deuluoedd
h. Sut y caiff dyheadau teuluoedd eu hannog a'u cefnogi
i. Sut y cefnogwn deuluoedd i gyfrannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd

| Yr hyn yr ydym eisiau gweithio ato (y datganiad nesaf yn yr adran) | Yr hyn y byddwn yn ei wneud (cam gweithredu) | Pwy fydd yn gyfrifol am hyn (enw) | Erbyn pryd y cyflawnir hyn (dyddiad) |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Templed o gynllun gweithredu

## Prif flaenoriaeth

Pam mai hyn yw eich prif flaenoriaeth?

## Camau cyntaf

Pwy

erbyn pryd

## Pwy arall sydd angen cael gwybod/helpu i hyn ddigwydd?

## Sut fyddaf i'n cael eu help?

## Pa gefnogaeth fydd ei hangen arnaf i/arnom ni?

O'r tu mewn i'r sefydliad

O'r tu allan i'r sefydliad

## Sut fyddaf i'n gwybod os bûm yn llwyddiannus?

Beth fydd wedi newid? Beth fyddwch chi'n ei weld? Beth fyddwch chi'n ei deimlo? Beth fyddwch chi'n ei glywed?

# Adnoddau eraill

Gweler yr adnoddau eraill rhad ac am ddim canlynol gan Lywodraeth Cymru ar arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion.

*Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru*

http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/person-centred-practice-guide/?lang=cy

*Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru*

http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/person-centred-reviews-toolkit/?lang=cy

Mae sefydliadau sy'n darparu gwybodaeth neu hyfforddiant ar adolygiadau ac arfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn cynnwys y canlynol.

Anabledd Dysgu Cymru

www.ldw.org.uk


Helen Sanderson Associates

www.helensandersonassociates.co.uk/reading-room/?topic=person-centred-reviews

Personalising Education

www.personalisingeducation.org/

## Crynodeb o offerynnau meddwl sy'n canolbwyntio ar unigolion




### Proffil un dudalen

**Yr hyn mae'n ei wneud**

Gwahanu yr hyn sy'n bwysig i rywun (beth sy'n gwneud person yn hapus, bodlon ac yn cynyddu lles) o'r hyn sy'n bwysig **ar eu cyfer** (yr help neu gefnogaeth maent ei angen i aros yn iach ac yn ddiogel) tra'n gweithio at gydbwysedd rhwng y ddau.

**Sut mae'r dull meddwl sy'n canolbwyntio ar y person yma'n helpu**

- Mae'n dynodi'r hyn sy'n rhaid iddo fod yn bresennol, neu'n absennol, ym mywyd y person i sicrhau y cânt eu cefnogi mewn ffyrdd sy'n gwneud synnwyr iddynt, tra'n aros yn iach a diogel.
- Mae'n darparu crynodeb cyflym o bwy yw'r person a sut i'w cefnogi ar gyfer yr holl staff ac eraill.
- Mae'n darparu sail ar gyfer gwneud newidiadau'n defnyddio proffil un dudalen gyda beth sy'n gweithio/ddim yn gweithio.





### Offeryn gwerthfawrogi

**Yr hyn mae'n ei wneud**

- Mae'n dynodi'r rhinweddau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi ac yn eu hedmygu am y person.
- Mae'n helpu cefnogwyr i weld beth sy'n gwneud y person yn unigryw.

**Sut mae'r dull meddwl sy'n canolbwyntio ar y person yma'n helpu**

- Mae'n cydnabod a gwerthfawrogi doniau a nodweddion person.
- Mae'n sicrhau ein bod yn gweld pobl am bwy ydynt ac yn atal y ffocws cyson ar beth sydd o'i le.
- Mae'n dynodi'r rhai sydd â chysylltiad personol gyda'r person ac sy'n wirioneddol yn gwybod beth sy'n bwysig iddynt.
- Mae'n rhan o broffil un dudalen.




## Cylch perthynas

### Yr hyn mae'n ei wneud

- Mae'n dynodi pwy yw'r bobl bwysig ym mywyd person.

**Sut mae'r dull meddwl sy'n canolbwyntio ar y person yma'n helpu**

- Mae'n helpu i ddarganfod pwy yw'r bobl bwysicaf i'r person.
- Mae'n helpu i weld os oes unrhyw faterion pwysig yn ymwneud â pherthynas.
- Mae'n helpu dynodi gyda phwy i siarad wrth gasglu gwybodaeth.
- Mae'n dynodi perthynas y gellir ei chryfhau neu ei chefnogi.





## Diwrnod da – diwrnod gwael

### Yr hyn mae'n ei wneud

- Mae'n ymchwilio'r hyn sy'n gwneud diwrnod da a'r hyn sy'n gwneud diwrnod gwael.
- Mae'n galluogi'r person a'u cefnogwyr i wneud newidiadau fydd yn arwain at fwy o ddyddiau da.
- Mae'n ein helpu i ymchwilio beth mae'r wybodaeth a gasglwn yn ei adlewyrchu am yr hyn sy'n bwysig i rywun a'r ffordd orau i'w cefnogi o'u safbwynt nhw.

**Sut mae'r dull meddwl sy'n canolbwyntio ar y person yma'n helpu**

- Mae'n gweld beth sydd ei angen a beth nad oes ei angen ym mywyd rhywun.
- Mae'n darparu gwybodaeth i rywun nad yw efallai'n adnabod y person yn dda.
- Mae'n rhoi syniadau am sicrhau fod llawer o gyfnodau a phrofiadau da sy'n codi hwyliau person ar gael yn ddyddiol.
- Mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer proffil un dudalen.





## Siart cyfathrebu

### Yr hyn mae'n ei wneud

- Mae'n rhoi ciplun cyflym o sut mae rhywun yn cyfathrebu.
- Mae'n darparu ffordd i ddeall yr hyn a gyfathrebwyd gan y person yn ogystal â'r hyn maent yn ei ddweud.

### Sut mae'r dull meddwl sy'n canolbwyntio ar y person yma'n helpu

- Mae'n ein helpu i ganolbwyntio ar gyfathrebu pobl p'un ai ydynt yn defnyddio geiriau i siarad ai peidio.
- Mae'n darparu gwybodaeth glir am sut i ymateb i'r ffordd y mae'r person yn cyfathrebu.





## Proffiliau gwneud penderfyniadau

### Yr hyn mae'n ei wneud

- Mae'n ein helpu i feddwl am wneud penderfyniadau a chynyddu nifer ac arwyddocâd y penderfyniadau a wnaiff pobl.

### Sut mae'r dull meddwl sy'n canolbwyntio ar y person yma'n helpu

- Mae'n galluogi pobl i reoli a gwneud penderfyniadau.
- Mae'n sylfaen wrth wneud penderfyniadau budd gorau ac uwch benderfyniadau.




## Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio?

### Yr hyn mae'n ei wneud

- Mae'n ein helpu i feddwl am wneud penderfyniadau a chynyddu nifer ac arwyddocâd y penderfyniadau a wnaiff pobl.

### Sut mae'r dull meddwl sy'n canolbwyntio ar y person yma'n helpu

- Mae'n galluogi pobl i fod mewn rheolaeth a wneud penderfyniadau.
- Mae'n sylfaen wrth wneud penderfyniadau budd gorau a phenderfyniadau uwch.

## Log dysgu

| Dyddiad | Beth wnaeth y person? | Pwy oedd yno? | Beth wnaethoch chi ddysgu am yr hyn a weithiodd yn dda? | Beth wnaethoch chi ddysgu nad oedd yn gweithio? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

### Yr hyn mae'n ei wneud

- Mae'n cyfeirio pobl i edrych am ddysgu parhaus drwy gofnodi gweithgareddau a phrofiadau penodol.

### Sut mae'r dull meddwl sy'n canolbwyntio ar y person yma'n helpu

- Mae'n cynnig ffordd i bobl gofnodi dysgu parhaus (gyda ffocws ar yr hyn a weithiodd yn dda ac na weithiodd yn dda) ar gyfer unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd.
- Mae'n dweud wrthym beth sy'n bwysig i ac ar gyfer unigolion a theuluoedd.
- Mae'n gallu cymryd lle nodiadau neu gofnodion traddodiadol i'n helpu i weld pwysigrwydd symud ymaith o ganolbwyntio ar gael tasgau wedi eu gwneud, i wirioneddol gefnogi pobl i gael bywyd da yn seiliedig ar eu gwrando a'u dysgu parhaus.
- Gellir ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar fywyd cyfan person neu feysydd penodol o'u bywyd, e.e. iechyd rhywun, sut mae pobl yn hoffi treulio eu hamser.

## Offeryn 4 plws 1

1. Beth ydyn ni wedi rhoi cynnig arno?
2. Beth ydyn ni wedi'i ddysgu
3. Beth ydyn ni'n falch amdano?
4. Beth ydyn ni'n pryderu amdano?
5. O gofio am yr hyn a wyddom nawr, beth nesaf?

### Yr hyn mae'n ei wneud

- Mae'n helpu pobl i ganolbwyntio ar yr hyn maent yn ei ddysgu o'u hymdrechion ac o gofio am y dysgu hwn, beth ddylai ddigwydd nesaf.

### Sut mae'r dull meddwl sy'n canolbwyntio ar y person yma'n helpu

- Mae'n rhoi ffordd wedi'i strwythuro i bawb gael eu clywed a disgrifio'r hyn maent wedi'i ddysgu.
- Gellir ei ddefnyddio i baratoi ar gyfer cyfarfodydd adolygu a gwaith unigol gyda dysgwyr a theuluoedd.
- Mae'n helpu i adolygu camau gweithredu o gynlluniau a datblygu camau gweithredu pellach.